

Caerdydd

(Mae dros 20% o blant cynradd Caerdydd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg)

I'r brifddinas eirias hon,
i dir glas adar gleision,
dy iaith sy'n gorymdeithio
â'i geiriau brith, gan greu bro
newydd. Mae'r darlun eang
ar hyd ein sir dan ei sang.

Ar hewlydd Caerdydd mae dôr
i'r Gymraeg yma ar agor,
ac nid dôr gilagored:
yn Nhrelái mae'r ddôr ar led;
ydy wir, mae iaith y dydd
yn Nhreganna ar gynnydd.

Yn Sblot caiff rhesi o blant
eu diwallu â diwylliant;
os awn ni i'r Eglwys Newydd
iaith y plantos yno sydd
yn canu yn acenion
Cymru'r ddinas eirias hon.

Pa un a wyt yn poeni
neu'n llawn gobaith i'n hiaith ni,
dwed hwrê i'w hyder heb
swnian yr un casineb.
Nid gwell Cymro'n Eifionydd
nag ar y daith i Gaerdydd.

Iwan Rhys

Caerdydd- Cynnwys

Pennill 1

Yn y pennill hwn mae'r bardd yn dangos bod yr iaith Gymraeg yn dechrau ffynnu (thrive) yn y brifddinas sef, Caerdydd. Yma hefyd mae tîm pêl-droed enwog o'r emw yr Adar Gleision. Mae'r iaith yn ffynnu yn yr ardaloedd ar draws y ddina ac, mae llawer o bobl yn dechrau dysgu a siarad Cymraeg. Mae'r bobl yma'n creu ardaloedd newydd lle mae llawer o bobl yn siarad Cymraeg.

Mae'r pennill yn llawn gobaith am ddyfodol disglair yr iaith Gymraeg

Arwyddocâd y Pennill

Mae'r pennill hwn yn berthnasol i weddill y gerdd achos ei fod yn dangos bod yr iaith Gymraeg yn boblogaidd iawn yng Nghaerdydd ac yn mynd o nerth i nerth (going from strength to strength)

Pennill 2

Yn y pennill hwn mae'r bardd yn dangos bod pobl Caerdydd yn croesawu'r iaith Gymraeg a bod y bobl sy'n byw yno yn awyddus i dderbyn a dysgu'r iaith. Mae rhai ardaloedd yn gweld cynnydd (increase) mawr er enghraifft, Trelai a Threganna. Mae Caerdydd yn agor ei drysau i'r Gymraeg ac mae'n bosibl clywed pobl yn siarad Cymraeg ar y stryd nawr.

Arwyddocâd y Pennill

Mae'r pennill hwn yn berthnasol i weddill y gerdd achos ei fod yn dangos sut mae'r Gymraeg yn datblygu yng Nghaerdydd. Hefyd mae'n dangos bod y ddinas

yn agored i dderbyn a dysgu Cymraeg

Pennill 3

Yn y pennill hwn mae'r bardd yn troi at y plant bach yn y sir sydd yn dechrau siarad a dysgu'r iaith yn Sblot a'r Eglwys Newydd. Maen nhw yn defnyddio acenion Cymraeg ac yn mwynhau canu a dysgu am ddiwylliant Cymru. Mae'n amlwg o'r pennill hwn bod agwedd bositif at yr iaith gan y rhieni hyn achos eu bod yn cefnogi ac yn gweld gwerth (value) mewn addysg Gymraeg. Mae plant ledled y ddinas yn dysgu am hanes Cymru ac yn creu gobaith am y dyfodol.

Arwyddocâd y Pennill

Mae'r pennill hwn yn berthnasol i weddill y gerdd achos ei fod yn dangos bod dyfodol disglair i'r iaith Gymraeg. Mae'n amlwg bod rhieni'r plant yn frwd dros addysg Gymraeg a dyna pam mae cymaint o ysgolion cynradd Cymraeg ledled y sir.

Pennill 4

Yn y pennill hwn mae'r bardd yn siarad â'r darllenydd ac yn nodi bod rhai pobl yn poeni am ddyfodol yr iaith tra bod (whilst) eraill yn bositif. Mae'n gorffen gan ddweud bod unrhyw Gymro sydd ar ei ffordd neu yn byw yng Nghaerdydd yn barod cystal ag (as good as) unrhyw Gymro o Eifionydd sef, bro sydd dan ei sang (overflowing) â siaradwyr y Gymraeg. Mae pob Cymro a Chymraes yn gyfartal, does dim oes ble rydych chi'n byw

Caerdydd gan Iwan Rhys – Arddull

Mae'r gerdd hon yn defnyddio technegau odli. Mae pedwar pennill gyda chwe llinell yr un. Mae odli ar ddiwedd pob llinell mewn cwpledi e.e.. hon gyda gleision yn y llinellau cyntaf ac ail ac eang a sang yn y pumed a chweched linell ac mae'n parhau felly trwy gydol y gerdd.

Mae'r gerdd yn rhedeg yn naturiol oherwydd y goferu sy'n creu strwythur a rhythm. Mae'n swnio fel araith hir; yn naturiol ond yn farddol ar yr un pryd;

"Ydy, wir, mae iaith y dydd yn Nhreganna ar gynnydd"

Mae'r defnydd o enwau llefydd yn gwneud neges y gerdd ymddangos yn fwy gwirioneddol ac yn perthyn i'r byd modern tu fas i'r dosbarth. Mae'r bardd yn sôn am Drelái, Treganna, Sblot ac Eglwys Newydd – ardaloedd Caerdydd adnabyddus i gyd!

Mae'r bardd yn defnyddio trosiadau fel y 'dôr i'r Gymraeg' ^{yn}~~yn~~ bod 'ar agor' neu'n 'gilagored.' Does dim dôr mewn gwirionedd ond mae'n drosiad am fynediad i'r Gymraeg a chyfleoedd gan bobl i'w siarad. Mewn ffordd, mae'r brifddinas yn agor ei drws i'r iaith.

Mae llawer o ddelwedd yn y gerdd gan gynnwys mae'r brifddinas yn cael ei disgrifio fel 'eirias' sy'n creu llun cryf yn y meddwl. Wrth ddisgrifio'r brifddinas fel hyn, mae'r bardd yn awgrymu bod gobaith yna ac ei bod hi'n denu pobl mewn. Hefyd, mae Iwan Rhys yn sôn am 'rhesi o blant' sy'n creu delwedd weledol o niferoedd mawr y plant sy'n siarad Cymraeg ond hefyd un o unffurfiaeth a'r iaith yn cael ei normaleiddio. Rydyn ni'n cael delwedd glywedol hefyd gyda'r 'plantos yno sydd yn canu yn acenion,' rydyn ni'n clywed y gân gymraeg ac yn deall yr amrywiaeth o acenion sy'n awgrymu bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghaerdydd – dim ots o ble yr ydych chi'n dod!

Hefyd, mae personoliad yn y gerdd gyda 'dy iaith sy'n gorymdeithio.' Mae'r llinell yma yn rhoi corff i'r iaith ac yn awgrymu ei bod hi'n dangos ei nerth gan fod yn bresennol yn y strydoedd a hyd yn oed yn protestio dros ei hawliau.

Mae cyflythreniad cynnil trwy'r gerdd ond mae'n dod yn amlwg yn y llinell 'eu diwallu â diwylliant.' Wrth ddewis defnyddio cyflythreniad er mwyn tynnu sylw at y llinell, mae'r bardd yn ceisio arddangos y perthynas agos a phwysig rhwng iaith a diwylliant.

Cyfrifiadur o Gymru'n helpu plant ysgol yn Zambia

Cafodd y cyfrifiadur Raspberry Pi ei ddatblygu yn 2013 gan cwmni o Gymru.

Ond beth yw Raspberry Pi?

Cyfrifiadur maint cerdyn credyd ydy Raspberry Pi. Bydd e wedi cael ei greu i annog pobl ifanc i ysgrifenu rhaglenni cyfrifiadurol.

Yr wythnos nesaf aeth cwmni cyfrifiadurol, GiaKonda, sy'n gwerthu Raspberry Pi, i Zambia. Mae disgyblion ysgol yn Zambia eisiau defnyddio cyfrifiaduron Raspberry Pi yn y gwersi technoleg gwybodaeth mewn yr ysgol.

Yn 2013 cost y cyfrifiadur oedd £25 ac roedd pob cyfrifiadur wedi'i gwerthu yn gyflym iawn ar ôl lansiad y cyfrifiadur. Nawr mae'r Raspberry Pi yn gwerthu am £4 yn unig. Bwriad y Raspberry Pi yw helpu pobl dlawd i ddefnyddio cyfrifiaduron.

Dywedodd Gary Richards, rheolwr ffatri Raspberry Pi yn Pen-y-bont, 'Mae hwn yn gynllun cyffrous, ac yn bwysig iawn i pobl Zambia. Mae nhw'n cael cyfle i ddysgu defnyddio cyfrifiaduron yn yr ystafell ddosbarth. Dyn ni'n gwybod bod mae llawer o bobl ifanc yn dysgu defnyddio cyfrifiaduron yn Zambia, felly mae hyn yn newyddion da iawn.'

(<http://golwg360.cymru/newyddion/arian-a-busnes/103713-raspberry-pi-am-gael-ei-gynhyrchu-yng-nghymru>
<http://golwg360.cymru/newyddion/gwyddoniaeth-a-thechnoleg/207314-cyfrifiadur-o-gymrun-helpu-plant-ysgol-yn-zambia>)

- | | |
|----|-----|
| 1. | 6. |
| 2. | 7. |
| 3. | 8. |
| 4. | 9. |
| 5. | 10. |

Cwestiwn 1 b) Newid berfau

Mae'r erthygl yn sôn am arferion ymolchi'r Cymry yn 2015.

Darllenwch y darn isod a newidiwch amser y ferf o'r presennol i'r gorffennol. Mae angen newid 10 berf yn y darn.

Mae ymchwil yn 2015 yn dweud mai'r Cymry yw'r bobl lanaf ym Mhrydain. **Rydyn ni** yn yr ystafell ymolchi bob dydd am fwy o amser nag unrhyw un arall. Yn 2015 **mae'r** Cymry yn treulio 31 munud y dydd yn yr ystafell ymolchi, y Saeson 30 munud a'r Albanwyr 29 munud.

Ond **dydy** pob rhan o Gymry ddim mor lan â'i gilydd. **Mae** pobl yn Aberystwyth wedi gwario 56% yn llai ar sebon a siampŵ yn 2015 nag unrhyw ran arall o Brydain. A **dydyn ni** ddim mor lân yn y gaeaf chwaith. '**Dydw** i ddim yn cael cawod bob dydd yn y gaeaf, mae hi'n rhy oer,' meddai Geraint, '**Does** dim rhaid siafio bob dydd chwaith.' **Dydy e** ddim yn meddwl bod hyn yn broblem.

Rhaid i ni wisgo mwy o ddillad yn y gaeaf yn 2015 achos **mae hi'n** oer iawn.

(<http://golwg360.cymru/newyddion/rhyfeddodau/202968-y-cymry-ywr-glanaf-ym-mhrydain>)

